



Economy & Enterprise
Torfaen ~ inspiring business innovation

Economi a Mentergarwch
Torfaen ~ hybu arloesi mewn busnes

Torfaen Business Voice Llais Busnes Torfaen

MAI 2020

 www.twitter.com/TorfaenBizCymru

 www.facebook.com/TorfaenBiz

 www.facebook.com/TorfaenBiz



Tanysgrifiwch i dderbyn bwletinau
gwybodaeth rheolaidd, a'r diweddaraf
gan Economi a Mentergarwch Torfaen
i'ch e-bost

www.southwalesbusiness.co.uk

TANYSGRIFIWCH

Nodiadau'r Cadeirydd

Rwy'n gwybod ei bod wedi bod yn gyfnod hynod anodd a heriol i bob busnes, gyda rhai wedi eu heffeithio'n fawr iawn ac eraill yn ceisio canfod ffordd o barhau'n ddiogel drwy'r pandemig presennol. Efallai bod rhwydweithio yn ymddangos yn isel ar y rhestr o flaenoriaethau, ond mae'n bwysig cadw mewn cysylltiad â busnesau eraill er mwyn i ni oll rannu ein profiadau a helpu ein gilydd gyda chymorth a chyngor, ond hefyd ar gyfer y busnesau sy'n gallu parhau i weithio i gadw mewn cysylltiad â chwsmeriaid a chleientiaid presennol a darpar gwsmeriaid a chleientiaid.

Gan gadw hynny mewn cof, ein nod yw cynnal cyfarfod misol drwy ddefnyddio Office Teams lle gellir darparu gwybodaeth ar gymorth, ac yna rhwydweithio. Nid ydym eto wedi gweithio allan sut i ddarparu bwffe rhithwir, ond rwy'n cael fy sicrhau bod Jo yn gweithio ar hynny. Ar y gwaethaf gallwn ffrydio darlun o tsips. Mae'r cyfarfodydd hyn yn mynd i fod yn fyrrach ond yn amlach na'n cyfarfodydd presennol a byddant yn cychwyn yn y man. Felly, os bydd y cysylltiad band eang yn caniatáu, rwy'n gobeithio y gallwn oll gyfarfod yn rhithwir yn fuan.



Ashley Harkus
Cadeirydd,
Llais Busnes
Torfaen

Dyddiad i'ch dyddiadue

18/06/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm
(I'w gadarnhau)

17/09/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm
(I'w gadarnhau)

03/12/20 - Llais Busnes Torfaen - 5:00pm
(I'w gadarnhau)

Llais Busnes Torfaen Cyfarfodydd Rhwydweithio Rhithwir

Rydym yn falch o'n digwyddiadau rhwydweithio clwb busnes; maent yn denu presenoldeb da ac yn cynnig arf hanfodol i fusnesau lleol sydd eisiau estyn allan, dysgu gan eraill ac yn y pen draw, cael manteision busnes.

Yn y cyfnod digynsail hwn, mae mor bwysig ag erioed parhau i gynnig y cyfle hwnnw i aelodau, i fod yn rhan o rwydwaith busnes mwy, rhoi cymorth a chyngor, cael gwybod beth mae busnesau eraill yn ei wneud a chynllunio'r ffordd ymlaen i'ch busnes chi.

Mae'r pwyllgor wedi bod yn gweithio ar gynllun i gyflawni hyn yn rheolaidd drwy gyfrwng cyfarfodydd rhithwir ac rydym yn falch iawn o'ch hysbysu y byddwn yn cynnig y cyfarfodydd hyn yn y man.

Byddwch yn cael eost yn fuan yn rhoi manylion o ran sut i fynychu felly arhoswch am ddiweddariad!



Cefnogi ein rhwydwaith busnes

Rydym yn ymwybodol y bydd ein haelodau, ar hyn o bryd, yn derbyn toreth o negeseuon eost gan amrywiol ffynonellau yn cynnig cyngor, arweiniad ac – weithiau – ambell sgam.

Hoffem gael gwybod rhai o'r cwestiynau a'r problemau allweddol rydych yn eu wynebu nad ydych eto wedi cael ateb iddynt. Ni allwn warantu bod yr atebion gennym ni chwaith, ond byddwn yn sicr yn ceisio darganfod atebion ar ran ein haelodau a'r gymuned fusnes ehangach.

Anfonwch eost at joanne.john@torfaen.gov.uk gyda'ch cwestiynau.

TUDALEN 3

Cymorth Ariannu

TUDALEN 5

Dychwelyd i'r Gwaith

TUDALEN 7

Cynllunio Nid Cynhyrfu!

Cymorth Ariannol i Fusnesau yn ystod COVID 19

Yn y cyfnod newidiol hwn rhaid i ni oll wneud yn siŵr bod ein busnes yn parhau i fod yn gynaliadwy. Dyma amlinelliaid byr o'r cymorth sydd ar gael hyd yma:

| Math o Fusnes | Amodau | Cefnogaeth |
|-----------------------------------|--|--|
| Manwerthu/Hamdden/ Lletygarwch | Rateable value less than £500,000 | Rhyddhad 100% ar Drethi Busnes |
| Manwerthu/Hamdden/ Lletygarwch | Gwerth ardrethol £12,001-£50,000 | Grant: £25,000 Ffurflen gais i Gyngor Torfaen |
| Pawb | Gwerth ardrethol <=£12,000 ac yn derbyn rhyddhad trethi busnesau bach | Grant: £10,000 Ffurflen gais i Gyngor Torfaen |
| BBChau | Llai na 250 o gyflogeion | 2 wythnos o Dâl Salwch Statudol I bob cyflogai â Covid-19 Cynllun Benthyciadau Ymyrraeth Busnes trwy Coronafeirws yn cynnig benthyciadau hyd at £5 miliwn i BBChau trwy'r Banc Busnes Prydeinig. Benthyciad Bolwnsio'n Ôl yn cynnig benthyciadau o £2,000 - £50,000 |
| Cwmnïau mwy | | Cyfleuster Ariannu Corfforaethol Covid-19 Banc Lloegr |
| Cwmnïau sy'n cyflogi pobl | Unrhyw un oedd yn gyflogedig ar 28ain Chwefror, hyd yn oed os ydyn nhw wedi eu diswyddo ers hynny | Cynllun Cadw Swyddi Cymorth cyflogau: 80% o gyflogau hyd at £2,500 i bob cyflogai |
| Pob cwmni a hunangyflogedig | | DU Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig Gwasanaeth Amser i Dalu CThEM Seibiannau Morgeisi Gohirio taliadau TAW LIC Benthyciad Banc Datblygu Cymru |
| Hunangyflogedig | | Cynllun Llywodraeth Cymru i'w gadarnhau |

Rheolau Busnes Llywodraeth Cymru

Ydych chi wedi dechrau cynllunio sut y gall eich busnes agor?

Daeth rheolau i amddiffyn gweithwyr yn ystod y pandemig Coronafeirws i rym y mis diwethaf.

Ydych chi wedi meddwl sut y bydd hyn yn effeithio eich busnes a sut y bydd angen i chi ddechrau cynllunio pan fydd cyfyngiadau'n cael eu llacio i ail-gychwyn eich busnes?

Dyma rai syniadau o ran y pethau y gallech eu hystyried, gan gofio wrth gwrs y bydd yn hollbwysig glynu at arweiniad y Llywodraeth.

- Sut fyddaf yn sicrhau bod fy staff a chwsmeriaid yn gallu cadw at ofynion cadw pellter cymdeithasol?
- Sut allaf ad-drefnu desgiau, llinellau cynhyrchu neu weithgareddau gwaith eraill fel nad yw pobl yn wynebu ei gilydd yn uniongyrchol?
- Pa newidiadau sydd angen i mi eu gwneud i arferion glanhau i sicrhau bod y man gwaith yn aros yn ddiogel i staff a chwsmeriaid fel ei gilydd?
- A allaf ad-drefnu patrymau shift i osgoi cymysgu grwpiau o staff?
- Beth sydd angen i mi ei wneud gyda chyfleusterau lles staff i sicrhau eu bod yn addas o ran dychwelyd i'r gwaith?

Cyhoeddir arweiniad pellach i esbonio'r hyn a ddisgwylir gan gyflogwyr a busnesau dros y misoedd i ddod wrth i'r cyfyngiadau gael eu codi.

Ar gyfer lleoliadau penodol, cyfeiriwch at yr [arweiniad sy'n benodol i bob sector](#)



Dychwelyd i'r gwaith materion i gyflogwyr eu hystyried.


Wrth i wledydd eraill ryddhau amodau cyfyngiadau symud a phan fo'n ymddangos bod ein Llywodraeth yn paratoi llacio'r rheolau'n araf, mae angen i gyflogwyr ystyried y camau y dylent eu cymryd i amddiffyn eu gweithlu.

Tra bo rhai sectorau wedi gallu parhau i weithio yn ystod y cyfnod cyfyngu symudiadau gan ddefnyddio cyfuniad o weithio o bell neu bolisiau gweithle sy'n ceisio sicrhau amodau gwaith diogel, mae sectorau eraill yn disgwyl cael ail-agor eu busnesau yn raddol. Er nad oes llawer o wybodaeth ar hyn o bryd, mae grwpiau cyflogwyr mwy wedi awgrymu bod angen o leiaf dair wythnos o amser paratoi.

Mae'r Adran ar gyfer Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn ddiweddar wedi cyhoeddi arweiniad ar y mesurau a awgrymir y dylid eu cymryd i sicrhau diogelwch gweithwyr.

Y cam cyntaf fyddai paratoi cynllun strategol ar gyfer dychwelyd i'r gwaith yn canolbwyntio ar iechyd a diogelwch y gweithlu, sut y dylid addasu adeiladau i leihau risg, a yw gweithio o bell yn dal yn bosibl, ac os nad yw, y camau y dylid eu cymryd i sicrhau cadw pellter cymdeithasol, a oes angen polisiau i rwystro heintiad rhwng gweithwyr a sut gellir cadw cysylltiad gyda chleientiaid neu gwsmeriaid wrth sicrhau amgylchedd gwaith diogel.

Yn amlwg, bydd cyflogwyr, yn dibynnu ar y sector, wedi gweld cyfraddau amrywiol o amhariad ar eu busnes, gyda llawer wedi gorfod cau'n gyfan-gwbl, a byddant eisiau ailgydio mewn gweithgareddau busnes cyn gynted ag y bo modd, er bod yn rhaid i ddiogelwch eu gweithwyr a'u cwsmeriaid fod yn oruchaf. Gall methu â gweithredu polisiau priodol arwain at gynnydd yng nghyfradd heintio'r feirws gan beryglu'r gymuned ac o bosib arwain at gyfyngu symudiad unwaith eto, ond hefyd ar lefel unigol mae gan fusnes ddyletswydd gofal i'w hamddiffyn, a gallai methu â sicrhau hynny gan annog neu ganiatáu i staff weithio mewn amodau anniogel arwain at amrywiol ganlyniadau, o hawliadau sifil i gyfrifoldeb troseddol.



Er nad yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth, gan y bydd pob busnes yn wahanol, mae'r arweiniad drafft yn awgrymu'r canlynol: -

- Sicrhewch eich bod yn gwybod sut ydych yn mynd i gyfathrebu gyda'ch staff fel eu bod yn gwybod beth ydych chi'n mynd i'w wneud a sut byddwch yn disgwyl iddyn nhw ymddwyn.
- Dylech wneud asesiad risg iechyd a diogelwch o'ch eiddo. Mae'n annhebygol y byddai unrhyw eiddo sy'n rhy fach i ganiatáu cadw pellter cymdeithasol yn cael ei dybio'n eiddo diogel.
- Ystyriwch a chofnodwch unrhyw addasiadau y gallech eu gwneud i gadw o fewn arweiniad y Llywodraeth. Dylai'r cynllun hefyd ddelio gyda chaniatáu cleientiaid neu gwsmeriaid i mewn ai peidio neu a ellir gwneud trefniadau amgen. Mae llawer o fusnesau yn gallu cysylltu gyda'u cleientiaid o bell ac mae'n debygol o barhau i fod yn wir bod cysylltiad wyneb i wyneb yn cael ei gyfyngu nes bydd yn ddiogel gwneud hynny.
- Ystyriwch y nifer leiaf o staff sydd eu hangen yn y swyddfa ar unrhyw adeg ac ystyriwch os yw'n bosibl parhau i weithio o bell. Bydd angen i chi roi ystyriaeth arbennig i staff gyda chyflwr iechyd isorwedddol neu sydd wedi cael eu cynghori dan y cynllun gwarchod. Os yw'r aelodau staff hynny yn gweithio o bell ar hyn o bryd, mae'n annhebygol y bydd yn rhesymol gofyn iddyn nhw fynychu swyddfa neu adeilad gwaith. Efallai yr hoffech feddwl am weithio oriau hyblyg ac oriau gwaith amrywiol.
- Dylai busnesau ystyried sut y dylid trin cyfleusterau sydd fel rheol yn cael eu rhannu. A fydd y ffreutur gwaith yn aros ar agor? A fydd angen i weithwyr ddod â'u cyllyll a'u ffyrce eu hunain? Bydd angen i fusnesau ystyried a ddylid cyflwyno polisi sydd naill ai'n cyfyngu neu'n gwahardd defnyddio cyfleusterau cyffredin.
- Lle mae angen defnyddio cyfleusterau, er enghraifft toiledau gwaith, byddai angen ystyried cynyddu rotâu glanhau a darparu hylif glanweithdra a chynhyrchion glanhau ychwanegol. Bydd angen i fusnesau ystyried a ddylai toiledau sydd fel rheol ar agor i gwsmeriaid yn aros ar agor.
- Dylai unrhyw gynllun asesu risg o ran darparu offer amddiffynnol personol ac os felly, o ble i'w gael. Gallai'r offer gynnwys sgriniau neu offer personol fel masgiau.

Bydd yn hanfodol edrych ar wefannau'r llywodraeth yn rheolaidd i sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio a chymryd cyngor gan adrannau Adnoddau Dynol neu ymgynghorwyr allanol os oes amheuaeth.

Arallgyfeirio Eich Busnes

Mae argyfyngau, ar unrhyw lefel, yn amharu ar bethau. Yn ystod cyfnod o ymyrraeth ddwys, megis y pandemig Coronafeirws presennol, mae dau beth yn bwysig:

1. Delio gyda'r peryglon uniongyrchol a gyflwynir gan yr argyfwng mewn ffordd ddeallus, i ddod allan o'r sefyllfa gyda'r niwed lleiaf.

2. Paratoi ar gyfer byd ar ôl yr argyfwng a all edrych yn wahanol iawn i'r byd rydym yn byw ynddo heddiw.

Mae pob argyfwng hefyd yn gyfle i ennill ymddiriedaeth a hygredded ein cwsmeriaid, ein partneriaid, y gymuned a'r teulu drwy eu helpu i ddelio gyda'r argyfwng. Mae pethau'n digwydd yn gyflym iawn ac mae'r darlun yn newid bob dydd os nad bob awr. Rydym wedi ein bombardio gan sŵn a heip gan sefydliadau newyddion sy'n aml yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n newydd yn hytrach na'r darlun mawr, ac weithiau nid ydynt yn gwahaniaethu rhwng feithiau caled, ffeithiau meddal a dyfaliad.

Pan fydd adfyd yn taro


Y cam cyntaf yw peidio â cholli golwg pan fydd adfyd yn taro. Mae'r rhan fwyaf ohonom yn dilyn ein greddf pan fydd rhywbeth drwg yn digwydd; gall ein harferion a'n credoau ein cadw rhag gweithredu mewn modd adeiladol. Gochelwch rhag y ddwy fagl emosiynol

Erydiad

Gall digwyddiad trawmatig ein dadsefydlu ac ysgogi emosiynau negyddol iawn. Efallai ein bod yn teimlo'n siomedig yn ein hunain neu eraill, cael ein cam-drin a'n digalonni, hyd yn oed teimlo ein bod dan warchae.

Erledigaeth

Mabwysiadu rôl person diymadferth wrth wynebu digwyddiad andwyol. Gwrthod beirniadaeth ac awgrymiadau defnyddiol gan eraill, mynnu mai ni sy'n iawn, bod pawb arall yn anghywir a bod neb yn ein deall.



www.businessdoctors.co.uk/dontpanic



Y capasiti ar gyfer gwytnwch

Pan fydd rhywbeth anodd yn digwydd, mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwneud tybiaethau cyflym am y rhesymau, maint y broblem, canlyniadau a hyd y cyfnod. Rydym yn penderfynu ar unwaith, er enghraifft, os oedd yn anochel, yn digwydd oherwydd grymoedd y tu hwnt i'n rheolaeth, neu a allwn fod wedi ei rwystro rywsut.

Gall hyn ein harwain i sianelu ein hegni ar y pethau na allwn eu rheoli, neu lle nad oes gennym lawer o ddylanwad drostynt, sydd yn arwain at deimlo'n fwy digalon ac yn dioddef erledigaeth. Yn hytrach, mae angen i ni newid i feddwl yn "weithredol" am sut i ymateb orau, gofyn i'n hunain pa agweddau y gallwn eu rheoli, a sut gellir delio gyda hyd a lled yr argyfwng.

Canolbwyntio ar Reolaeth, Effaith, Hyd a Lled a gofyn y cwestiynau allweddol o ran sut allwn ymateb, sut fyddai pe byddem yn estyn allan a chysylltu gyda'n tîm i'n cefnogi, sy'n meithrin gwytnwch ac yn ein helpu ni i gynllunio.

Gall hyn ein harwain i anwybyddu'r signalau gwannach a gor-adweithio i'r penawdau, sy'n aml yn cael eu gwaethygu gan y ffaith bod ein gweithwyr yn gwneud yr un peth. Yn hytrach na chamu yn ôl, cloriannu pethau ac edrych yn wrthrychol ar y sefyllfa.

"A time of crisis is not just a time of anxiety and worry. It gives a chance, an opportunity, to choose well or to choose badly."
Desmond Tutu

Buaswn yn dweud ei bod yn dod yn bwysicach ac yn bwysicach bod yna gynllun, i'ch rhoi yn ôl mewn rheolaeth o'ch busnes. Rydym y delio ag ansicrwydd. Mewn llawer o achosion, mae gwerthiannau wedi dod i ben.

Mewn llawer o achosion eraill rydym yn masnachu gyda llawer llai o incwm nag o'r blaen. Mae angen i ni nid yn unig orosi'r 180 diwrnod nesaf, ond dod allan yn gryfach y pen allan. Yr her yw nid yn unig goroesi'r argyfwng yma, ond adfer cyn i'r gystadleuaeth eich curo i'ch cwsmeriaid.



Arallgyfeirio

Bydd rhai busnesau yn ei chael yn haws i arallgyfeirio nag eraill. Mae'n siŵr eich bod wedi gweld bod gweithgareddau arlein ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu, gyda busnesau yn ceisio cael dilyniant. Hyfforddi arlein, cyfarfodydd fideo gydag amrywiaeth o fathau i ddewis rhyngddynt.

Bwyta'i sydd wedi cau, yn ailagor gyda gwasanaeth tecawê neu wasanaeth dosbarthu, cynhyrchwyr argraffwyr 3D yn gwneud offer amddiffynnol personol (PPE) sydd fawr ei angen, bragwyr a distyllfeydd jin yn cael defnydd newydd ar gyfer cyflenwadau ethanol drwy wneud a dosbarthu hylif glanweithdra ac yn y blaen ... Ceisiwch ddeall y darlun mawr wrth ddeall y sefyllfa, lluniwch gynllun i ddelio gyda'r sefyllfa, a gweithredu'n gyflym. Ceisiwch ail-fframio eich dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd. Mae gwytnwch a chyflymder yn allweddol.

Gwrthodwch y demtasiwn i beidio â dosbarthu cynlluniau i bobl nes byddwch yn hollol siŵr neu fod yn amharod i newid y cynlluniau oherwydd eich bod yn ofni edrych yn ansicr neu dan gamargraff. Mae dogfen fyw gyda stamp amser 'barn bresennol orau' yn hanfodol er mwyn dysgu ac addasu mewn sefyllfa sy'n newid yn gyflym.

Matt Prece, Business Doctors.
Email: matt.prece@businessdoctors.co.uk



COVID-19 a'ch busnes

Cyrsiau ar-lein am ddim i fusnesau

Mae Hyrwyddwr Digidol Cyflymu Cymru i Fusnesau wedi lansio cyfres o weminarau am ddim i fusnesau y mae COVID-19 yn effeithio arnynt.

Bydd y rhain yn eich helpu i roi digidol wrth galon eich busnes i sicrhau bod eich cwsmeriaid yn dod o hyd i chi yn y gofod ar-lein cynyddol gystadleuol hwn.

P'un a ydych yn dymuno symud ar-lein a chreu 'busnes fel arfer' newydd neu gynnal presenoldeb eich brand yn lleol ar gyfer pan fydd pethau'n dod yn ôl i normal, mae gennym gyrsiau sy'n addas i holl anghenion a galluoedd busnes.

Yn ogystal, gall busnesau cadw lle mewn unrhyw nifer o sesiynau rhagflas ymarferol 20 munud am ddim ar y pynciau a ganlyn:

Mae Cyflymu Cymru i Fusnesau hefyd wedi datblygu ystod o ganllawiau Sut-I ymarferol i helpu'ch busnes i drosglwyddo yn ystod COVID-19 - chwiliwch Cyflymu Cymru i Fusnesau ar-lein

I ddarganfod mwy ac i ymuno â'ch gweminar am ddim neu i gael mynediad i'r sesiynau rhagflas, chwiliwch Digwyddiadau Cyflymu Cymru i Fusnesau ar-lein.

Bydd y gweminarau yn helpu busnesau i ganolbwyntio ar y tri cham i'w hystyried yn ystod COVID-19:

- **Gweithio gartref: cynhyrchiant a lles**
- **Hyrwyddo'ch busnes: ymgysylltu â'ch cymuned leol**
- **Cystadlu ar-lein: y 'busnes fel arfer' newydd**

- **Symud eich busnes ar-lein**
- **Systemau talu ar-lein**
- **Creu gofod rhithwir lleol**
- **Cadw staff yn gysylltiedig**
- **Rheoli'ch busnes gartref**
- **Helpu eich cwsmeriaid i ddod o hyd i chi ar-lein**

CYRSIAU AR-LEIN AM DDIM BELLACH AR GAEL

GWEITHIO GARTREF

Y Swyddfa Ar-lein

Golwg fanwl ar sut y gallai Office 365 fod yn achubiaeth i chi symud eich gwaith swyddfa ar-lein yn gyflym.

HYRWYDDO'CH BUSNES

Ffitrwydd Digidol

Cyngor ar sut i gynnal eich busnes gan ddefnyddio offer i arbed arian a gwneud y gorau o weithio'n hyblyg.

CYSTADLU AR-LEIN

Seiberddiogelwch

Sut i amddiffyn eich hun rhag y nifer cynyddol o seiber-droseddwy'r sy'n gweithredu o dan orchudd pandemig byd-eang.

Hanfodion Cyfryngau Cymdeithasol

Mae'r cwrs hwn yn dangos ffyrdd hawdd o godi'ch profil gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â'ch cymuned leol.

Cyfryngau Cymdeithasol (Uwch)

Mae'r cwrs hwn yn amlinellu sut i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i arallgyfeirio ar-lein a chreu 'busnes fel arfer' newydd.

Cyflwyniad i SEO

Mae'r cwrs hwn yn esbonio sut i sicrhau bod cwsmeriaid yn dod o hyd i chi ar-lein nawr bod pawb yn cystadlu am le.

Hanfodion Marchnata Digidol

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â marchnata e-bost fforddiadwy, SEO a strategaethau cyfryngau cymdeithasol i yrru traffig a gwerthiannau gwefan.

Marchnata Digidol (Uwch)

Technegau uwch i'ch helpu chi i gystadlu yn y byd prysur newydd hwn o werthu ar-lein.

Gwefannau

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin ag ystod o dechnegau i adeiladu gwefan broffesiynol sy'n denu cwsmeriaid newydd.

CHWILIWCH DIGWYDDIADAU CYFLYMU CYMRU I FUSNESAU AR-LEIN



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



UNDIR FWRORAIDD
EUROPEAN UNION



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**

Yr hyn y gall busnesau ei wneud NAWR i farchnata eu hunain arlein

Wrth i ni barhau gyda'r cyfnod clo, mae llawer o berchnogion busnes nawr wedi derbyn 'normal' newydd o ran sut maent yn gweithredu. Mae hyn yn golygu y gall busnesau barhau i fasnacha gyda'i gilydd a bod arian yn cael ei wario.

Felly, beth a all perchnogion busnesau bach, annibynnol ei wneud NAWR i farchnata eu hunain arlein?

Yn yr erthygl hon, rydym yn edrych ar ddiwydiannau gwahanol y mae llawer o'n cleientiaid yn gweithio ynddyn nhw, a'r hyn y gellir ei wneud i gynhyrchu mwy o fusnes.

Bwytaï a Thafarndai

Er bod busnesau lletygarwch wedi eu taro galetaf, mae cyfle o hyd i fasnachu gyda chwsmeriaid lleol yn gorfforol ac arlein. Rydym wedi gweld nifer o fwytaï yn addasu i gynnig gwasanaeth tecawê a gwasanaeth dosbarthu. Mae rhai bwytaï hefyd yn creu pecynnau prydau bwyd sy'n cynnwys cig a llysiau i'w coginio gartref, naill ai wrth ddilyn cerdyn rysâit, neu i wneud pryd o ddewis y cwsmer. Arlein, mae tocynnau yn cael eu gwerthu ar wefanau bwytaï neu wefanau rhodd megis buyavoucher.co.uk



Gwallt a Harddwch

Yn debyg i letygarwch, mae busnesau megis salonau gwallt, siopau barbwr a harddwch wedi cau eu drysau, sy'n golygu bod yr holl fusnes wedi symud arlein, megis gwerthu tocynnau e-rodd i'w defnyddio ar wasanaethau pan fydd y cyfnod clo yn cael ei lacio. Mae pobl hefyd yn chwilio arlein am awgrymiadau harddwch i gynnal sut maent yn edrych tra'n aros gartref. Mae marchnata ar y cyfryngau cymdeithasol ar ffurf fideos awgrymiadau gofalu am ewinedd, trin gwallt neu'r ffordd orau o dorri gwallt plant yn ffyrdd gwych o ddarparu cyngor defnyddiol i gwsmeriaid a chadw ymwybyddiaeth o'r brand.

Garddio a Thirlunio

Gyda'r tywydd yn dechrau gwella (gobeithio), bydd mwy o bobl yn dianc o'r tŷ i dreulio amser yn yr ardd. Mae diwedd y gwanwyn yn amser gwych i blannu a gwneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol felly bydd busnesau megis garddwyr tirlunio, canolfannau garddio a meithrinfeydd mewn sefyllfa dda i ddarparu cynnwys defnyddiol ar y cyfryngau cymdeithasol a blogio ar bynciau megis 'Pa flodau i blannu yn ystod mis Mai' neu 'Sut i adeiladu twb planhigion gardd bach'.



DIY a Chrefftau Cyffredinol

Bydd gwaith wedi diflannu i lawer o bobl megis plastrwyr, plymwyr ac addurnwyr oherwydd y mesurau cadw pellter cymdeithasol llym, sy'n golygu bod llawer o aelwydydd yn fannau lle na allent fynd nawr.

Serch hynny, gyda llawer o bobl gydag amser sbâr yn y cyfnod clo, mae gwaith DIY o gwmpas y cartref megis peintio ac addurno yn cael blaenoriaeth. Mae hwn yn gyfle gwych i bobl yn y maes hwn greu cynnwys gweledol ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol a fyddai'n gweithredu fel cyngor ar sut i wneud pethau neu awgrymiadau. Byddai 'y lliwiau gorau ar gyfer y gegin' neu 'sut i drwsio tap sy'n gollwng' yn fanteisiol i lawer sydd eisieu treulio eu hamser yn gwneud y pethau sydd byth yn cael ei gwneud, neu i foderneiddio eu cartrefi.

Ffotograffwyr a fideograffwyr

Bydd canslo priodasau, digwyddiadau cyhoeddus a phobl yn ymgasglu wedi amharu'n fawr ar ffotograffwyr a fideograffwyr sy'n dibynnu ar ddigwyddiadau fel hyn o wneud bywoliaeth.

Felly, sut gall y math hwn o fusnes barhau i farchnata eu brand? Gall eu harbenigrwydd a'u gwybodaeth fod yn ddefnyddiol i ffotograffwyr amatur sydd eisieu gwella eu techneg neu wybod sut i dynnu lluniau gwell. Byddai eitemau ar y cyfryngau cymdeithasol neu flogiau arlein megis 'Sut i dynnu gwell portreadau ar iPhone' neu 'Sut i oleuo llun ar gyllideb' yn ddefnyddiol i lawer o bobl sydd eisieu ymarfer yn y cyfnod clo.

Hyfforddwyr Personol a Maethgwyr

Er bod y gampfa a chanolfannau iechyd ar gau, mae pobl eisieu cadw'n ffit ac egniol yn y cartref o hyd. Roedd yr hyfforddwr personol enwog Joe Wicks yn fabwysiadwr cynnar o dechnoleg arlein drwy ddarparu dosbarthiadau ffitrwydd dyddiol i blant drwy ei gyfrif YouTube.

Mae gan y mathau hyn o fusnesau gyfoeth o wybodaeth y gellir ei rhoi mewn cynlluniau hyfforddi i'w lawrlwytho drwy greu cynnwys fideo a thestun y gellir ei rannu arlein. Gellir hefyd creu aelodaeth arlein er mwyn i gwsmer wylio cynnwys pan fydd eisieu, gan helpu perchennog y busnes i gadw peth incwm.

Yn amlwg, mae llawer mwy o ddiwydiannau a all ddysgu i addasu nawr er mwyn parhau i fasnachu. Os hoffech drafod syniadau gyda ni neu ddatblygu cynllun marchnata newydd ar gyfer eich busnes. Bussem wrth ein boddau yn siarad gyda chi. Ffoniwch ni ar 07786 444472 neu ebostiwch hello@allianceagency.co.uk

Galw ar holl gynhyrchwyr bwyd yn Nhorfaen

Os ydych yn fusnes lleol, neu'n gwybod am unrhyw un sy'n cynnig gwasanaeth dosbarthu eitemau bwyd hanfodol nad yw wedi ei restru ar ein [tudalen we](#) benodol - ebostiwch create@torfaen.gov.uk ac fe wnawn eich ychwanegu.

Cefnogi ein busnesau lleol!

Arloesi Bwyd Cymru

A yw eich cwmni wedi cyflwyno arwyddion i esbonio rheolau cadw pellter cymdeithasol a'r nifer mwyaf sy'n cael gweithio ym mhob rhan o'ch ffatri? Mae gan ein pecyn COVID-19 nifer o ystyriaethau ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod:

<http://foodinnovation.wales/wp-content/uploads/FIW-CVGMP-01052020.pdf>

Angen cyngor fel cynhyrchwr bwyd yn Nhorfaen? Rydym yma i helpu! ebostiwch Tracey.marsh@torfaen.gov.uk



Mae gofalu am eich iechyd meddwl yr un mor bwysig â gofalu am eich busnes!

Sut ydw i?

Yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, rwy'n siŵr bod llawer ohonoch wedi treulio amser yn gofyn i eraill 'sut ydych chi?' ond faint mor aml ydych chi wedi gofyn y cwestiwn 'sut ydw i?' Wel, heddiw rydych yn cael caniatâd i wneud yr union beth hwnnw.

Mae mor bwysig yn y cyfnod hwn – fwy nag erioed – nad ydych yn colli golwg ar eich iechyd meddwl a'i bwysigrwydd i'ch lles yn gyffredinol. Nid yw hwn yn gyfnod i adael i falchder eich rhwystro; mae'n amser i fod yn onest gyda chi eich hun ac estyn allan i eraill am help os ydych ei angen.

Mae'r byd cyfan mewn cynnwrf a chyffro ac ansicrwydd felly dylech wybod, sut bynnag y mae pethau i chi, bydd rhywun arall yn teimlo'r un fath. Y diwrnod o'r blaen, gwelais y dyfyniad hwn ar Facebook – 'We are not all in the same boat, but we are in the same storm' (Awdur anhysbys). Rwy'n ei hoffi ac yn meddwl ei fod yn wir. Mae ychydig fel y llyfr gan John Donne – No man is an Island. Cofiwch, beth bynnag eich teimladau, emosiynau a'ch meddyliau nawr, nid ydych ar eich pen eich hun.

Cymerwch amser heddiw i fod yn llonydd, gwrandao ar yr adar (os yw'n heulog), y glaw ar y ffenestr os nad yw. Gadewch i'ch teimladau, meddyliau ac emosiynau ddod i'r wyneb;

peidiwch ag ofni beth sy'n dod, a nodwch nhw ar bapur. Mae'n berffaith naturiol teimlo'n ofnus nawr, ac mae'n iawn teimlo'n ddagreuol ac mae'n iawn teimlo'n flin. Beth bynnag sy'n codi, dywedwch wrthy eich hun eich bod yn iawn gyda hyn.

Unwaith y byddwch wedi gwneud yr ymarfer hwn, estynnwch allan a siarad gyda rhywun, partner, ffrind, cydweithiwr busnes neu aelod o'r tîm a dechreuwch y sgwrs gyda 'alla i ddweud wrthy eich sut ydw i'n teimlo?' os nad ydych yn teimlo y gallwch wneud hyn gyda rhywun agos, yna cysylltwch â rhywun dieithr mewn grŵp arlein neu ffoniwch linell elusen neu fentor / hyfforddwr, pwy bynnag a fydd yn deall.

Pan rwy'n siarad am iechyd meddwl a phryder rwyf bob amser yn gorffen gyda 'Cyfathrebu yw'r feddyginiaeth orau', ac mae hyn yn bwysicach nag erioed nawr – estynnwch allan a bydd eich lles yn diolch i chi am wneud hynny.

Gall hyn deimlo fel y diwedd i rai, ond os gallwch arallgyfeirio, cydweithredu a/neu bod yn ddyfeisgar, gallai hyn fod yn gychwyn ar daith newydd ond cadarnhaol ymlaen. Cofiwch bod adeiladau'n cael eu codi allan o sylfeini llawn rwbel.

Arhoswch yn ddiogel ac arhoswch yn iach

Beverley Jones

Awaken Coaching www.awakencoaching.co.uk